# Canllawiau Adfer Busnes Twristiaeth

## Cwmpas a Phwrpas y Canllawiau

Mewn ymateb i'r argyfwng yn y sector twristiaeth a gyflwynwyd gan COVID-19, nod y canllaw yma yw darparu proses gam wrth gam i gynorthwyo i adnewyddu'r sector trwy hysbysu a chynghori darparwyr atyniadau a llety ar ddatblygu cynlluniau adfer a pharhad i gefnogi adfer ac adnewyddu twristiaeth. Bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn y ddogfen yma hefyd yn ddefnyddiol i sectorau cysylltiedig fel sefydliadau bwyd a diod. Rydyn ni'n disgwyl mai'r sector achlysuron fydd yr olaf i elwa o godi cyfyngiadau. Mae Croeso Cymru yn datblygu canllawiau ar gyfer y sector yma, ar wahân i dwristiaeth. O'r herwydd dydy'r sector achlysuron ddim yn cael ei gynnwys o fewn cwmpas y canllaw yma.

Sylwch dydy'r canllawiau yma ddim yn disodli cyfrifoldeb y sector i alinio'n gaeth â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19, a dydyn nhw ddim wedi cael eu llunio ar gyfer pob digwyddiad posibl. Y bwriad yw darparu gwybodaeth ychwanegol i helpu busnesau i ystyried eu sefyllfa bresennol a'u gwytnwch yn y dyfodol. Cyfrifoldeb pob busnes o hyd yw cynnal asesiad risg llawn, i gael gwybodaeth lawn am ofynion statudol fel y maen nhw'n berthnasol yng Nghymru, ac i arfer barn cyn mabwysiadu unrhyw newidiadau yn ei fusnes ei hun. Mae modd dod o hyd i gymorth a chefnogaeth bellach ar wefannau Busnes Cymru a UK Hospitality.

## Pethau i'w hystyried wrth Ddatblygu Cynllun Adfer / Parhad Busnes

Wrth ddatblygu cynllun adfer / parhad dylai busnesau ystyried dull "beth sy'n digwydd os" sy'n fwy seiliedig ar senarios a chanolbwyntio ar y chwe mis nesaf yn hytrach na'r tair i bum mlynedd nesaf.

A chithau'n berchennog busnes bydd angen i chi ystyried:

1. Eich diogelwch eich hun, eich staff a'ch ymwelwyr;
2. A fyddwch chi'n gallu ailddechrau gweithrediadau'n llawn pan fydd cyfyngiadau'n codi a sut y byddwch chi'n gallu gwneud hyn cyn gynted â phosibl?
3. Sut allwch chi sicrhau bod eich cynnyrch / gwasanaeth yn gallu gwrthsefyll tarfu Covid-19?
4. Ydy eich cadwyn gyflenwi chi'n ddibynadwy? Os dydy hi ddim, pa fesurau lliniaru byddech chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â hyn?
5. Sut bydd eich busnes yn cyflawni ymrwymiadau cytundebol gyda chwsmeriaid, e.e. a fyddwch chi'n cynnig talebau i ohirio ymweliad, neu ganslo archebion?

Un o'r agweddau pwysicaf ar gynllunio ar gyfer adferiad yw deall y risg dan sylw. Bydd cynnal asesiadau risg ar gyfer eich busnes, staff ac ymwelwyr yn eich helpu i ddeall rhai o'r heriau efallai fydd angen i chi fynd i'r afael â nhw cyn gallu ailagor eich busnes.

Mae rhai ystyriaethau ar gyfer cynnal asesiad risg ar gyfer staff ac ymwelwyr yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Dangos cydymffurfiad a dealltwriaeth o ganllawiau COVID-19 yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru. Dyma'r prif fesurau rheoli:
  - Cadw pellter cymdeithasol yn unol â chanllawiau'r llywodraeth (2 fetr ar hyn o bryd);
  - Diheintio arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd â'r dwylo;
  - Golchi'r dwylo'n aml a gosod pwyntiau diheintio dwylo mewn mannau allweddol;
  - Peidio â chyffwrdd llygaid, ceg neu drwyn â bysedd neu fenig halogedig (os ydyn nhw'n cael eu defnyddio);
- Ymgymryd â theithiau cwsmeriaid a staff yn eich lleoliad ac ystyried amrywiol senarios a digwyddiadau;
- Tynnu sylw at risgiau posibl sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r camau sydd eu hangen i liniaru yn eu herbyn; Bod yn realistig; Os does dim modd gweithredu mesur rheoli, soniwch am hyn yn eich asesiad.
- Caniatáu ar gyfer hyblygrwydd gan fod modd i gyfyngiadau gael eu hailosod ar unrhyw adeg, paratoi ar gyfer absenoldeb staff oherwydd ffactorau fel salwch, aflonyddwch i drafnidiaeth gyhoeddus a materion gofal plant.

Bydd angen i chi ddatblygu cynllun gweithdrefnol ar gyfer haint Covid-19 yn eich lleoliad. Byddwch yn glir ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn os oes aelod o staff neu gwsmer yn dangos symptomau a gofalwch bod staff ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth yma. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n cynnwys Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn y broses yma. Efallai bydd angen i chi roi hyfforddiant i'ch staff ar y mater yma.

<u>Camau i Ddatblygu Cynllun Parhad Busnes:</u>

1. Nodi Cynhyrchion / Gwasanaethau Allweddol a Gwerthuso Cyllid tymor byr

Beth sy'n rhaid i chi roi'r gorau i'w wneud, beth sy'n rhaid i chi ddechrau ei wneud? Nodwch pa feysydd o'ch busnes sydd fwyaf mewn perygl ac ystyriwch fesurau i'w gweithredu a fydd yn lliniaru risg. Gwiriwch eich cyllid. Sefydlwch ddisgyblaeth monitro llif arian tymor byr sy'n eich galluogi i ragweld pwysau ar eich llif arian ac ymyrryd mewn modd amserol. Gwnewch asesiad o'r risgiau ariannol a gweithredol ac ymatebwch yn gyflym, gan gynnal disgyblaeth lem ar gyfalaf gweithio.

Trwy gydol yr argyfwng, cadwch gyswllt rheolaidd ag unrhyw gyflenwyr perthnasol i nodi unrhyw risgiau posibl. Byddwch yn effro i'r pwysau a allai fod yn effeithio ar rai o'ch cwsmeriaid a'ch cyflenwyr. Efallai bydd angen i chi adolygu costau gweithredu cyffredinol ac ystyried arafu neu gwtogi ar yr holl gostau sydd ddim yn hanfodol.

2. Byddwch yn glir ynghylch Amcan eich Cynllun Parhad

Sut fydd argyfwng COVID-19 yn effeithio ar eich cyllideb a'ch cynllun busnes? Beth yw'r senarios posibl yn y dyfodol, a pha rai yw'r rhai mwyaf tebygol o ystyried yr hyn rydyn ni yn ei wybod nawr? Adolygwch eich rhagdybiaethau cyllidebol blaenorol a'ch cynlluniau busnes os dydyn nhw ddim yn berthnasol mwyach. Byddwch yn hyblyg i newid - mae'n bosibl bydd cyfyngiadau yn cael eu gosod eto neu bydd rheolau'n cael eu gosod a allai beri pwysau ariannol ac amser ychwanegol i'ch busnes. Os yw eich busnes yn cael ei effeithio'n sylweddol, bydd angen i chi ystyried y gofynion gweithredu lleiaf. Gofalwch eich bod chi'n cadw llygaid ar newidiadau'r Llywodraeth a chynlluniau cymorth gan Busnes Cymru a Croeso Cymru.

3. Gwerthuswch Effaith bosibl Amhariad ar eich Busnes a'ch Staff

Mae llawer o fusnesau eisoes wedi profi dirywiad ariannol. Mae hyn yn ei gwneud yn angenrheidiol ailfeddwl am yr hyn fydd ei angen yn sefydliadol er mwyn adfer ac adnewyddu eich busnes. A fydd angen strwythur newydd arnoch chi? Fyddwch chi angen galluoedd ychwanegol oedd ddim yn angenrheidiol o'r blaen? Ydy eich prosesau'n addas ar gyfer y dyfodol? Ystyriwch ffactorau megis salwch staff ac effeithiau ar bresenoldeb yn y gwaith oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a chau ysgolion / capasiti cyfyngedig mewn ysgolion. Oes modd i chi weithredu unrhyw ddatblygiadau arloesol newydd a fydd yn helpu'ch busnes i wella'n gyflymach? E.e. ymchwilio i opsiynau rhithwir ar gyfer ymgysylltu a gwerthu i hybu incwm.

Ystyriwch opsiynau cadwyn gyflenwi amgen. A oes cyfleoedd i brynu'n lleol a chefnogi busnesau yn Rhondda Cynon Taf? Os oes modd i chi ddarparu dewisiadau amgen i'ch cyflenwyr neu gyfanwerthwyr arferol, gallai hyn liniaru yn erbyn risg a bydd yn creu gallu dros dro i fodloni rhwymedigaethau cwsmeriaid. Dylech chi ystyried yr aflonyddwch cychwynnol yn ogystal â sefyllfaoedd ar ôl yr argyfwng a'r potensial ar gyfer pwysau ar y cyflenwad a'r galw.

4. Rhestrwch y Camau Gweithredu i Ddiogelu'ch Busnes (gweler y tabl isod)

Beth, yn union, ydych chi'n bwriadu ei adfer? Efallai na fydd 'mynd yn ôl i normal' - beth bynnag oedd hynny - yn opsiwn realistig. Meddyliwch am adeiladu gwytnwch wrth baratoi ar gyfer ffordd newydd o weithio. Cymerwch amser i egluro beth mae adferiad yn ei olygu i'ch busnes o ystyried maint a graddfa'r effaith rydych chi'n ei brofi. A yw'ch cynlluniau busnes cyfredol yn dal i wneud synnwyr? Allwch chi gystadlu yn yr un ffordd yn y dyfodol?

Efallai yr hoffech chi rannu'r ystyriaethau yma'n gamau ar ddechrau datblygu eich cynllun.

**Cam 1**: Pa mor ddwfn effaith y sefyllfa yma ar y sector? Sut byddwch chi'n mynd i'r afael â'r her yma ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth?

**Cam 2**: Sut y bydd eich busnes yn addasu unwaith y bydd yn ailagor? Pa mor hir y bydd y busnes yn ei gymryd i ailagor? Sut y byddwch chi'n ailsefydlu rhai o'ch cysylltiadau? Sut ydych chi'n defnyddio ymchwil a data?

**Cam 3**: Beth yw eich cynllun Adferiad cychwynnol? Beth mae eich ymchwil wedi'i ddatgelu ar gyfer cyfleoedd newydd?

**Cam 4**: Beth ydych chi'n ei ychwanegu at eich cynllun adfer cychwynnol? Sut byddwch chi'n ei weithredu?

**Cam 5**: Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei defnyddio i addasu? Sut byddwch chi'n cyfathrebu i gynnwys eraill?

**Cam 6**: A oes angen unrhyw addasiadau? Beth yw eich cynllun i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ailgyflwyno cyfyngiadau symud yn y dyfodol? Disgwyliwch yr annisgwyl a byddwch yn hyblyg i newid.

5. Lluniwch Restr Cysylltiadau

Dylai hyn gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n cyfrannu at gyflawni eich busnes e.e. cyflenwyr, sefydliadau rydych chi'n rhannu atgyfeiriadau ac yn datblygu pecynnau gyda nhw a sefydliadau a all eich cefnogi chi yn y dyfodol. Oes gyda chi restr dosbarthu cwsmeriaid mae modd i chi ei defnyddio at ddibenion cyfathrebu i ail-ymgysylltu â sylfaen cleientiaid ffyddlon a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw?

Mae angen cyfathrebu clir, tryloyw, dilys ac amserol i sicrhau cefnogaeth barhaus gan gwsmeriaid a gweithwyr. Peidiwch â defnyddio negeseuon amwys y mae modd eu camddehongli. Yn y sefyllfa bresennol, mae meithrin perthnasoedd gyda defnyddwyr yn bwysig. Ewch i wefan Busnes Cymru i gael rhagor o gyngor ar gyfathrebu.

6. Cynnal Eich Cynllun (gwirio, ail-werthuso a newid os oes angen)

Unwaith y bydd yr achosion o COVID-19 o dan reolaeth, bydd angen i chi adolygu eich cynllun parhad busnes. Bydd angen i chi nodi achosion sylfaenol unrhyw ddiffyg e.e. prydlondeb gweithredu, diffyg seilwaith, prinder staff, materion cyllid. Ystyriwch ddatblygu cynlluniau wrth gefn yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd i adeiladu gwytnwch a galluogi ymateb mwy gwybodus i unrhyw argyfwng yn y dyfodol.

## Cynlluniau sy'n Cefnogi'r Sector

Os oes gyda chi ddiddordeb mewn cael cymorth ariannol, dylech chi fynd at yr adnodd canfod cymorth ar wefan GOV.UK https://www.gov.uk/business-coronavirus-support-finder yn y lle cyntaf. Bydd angen i chi lenwi holiadur i ddarganfod pa gymorth ariannol y gallech chi fod yn gymwys ar ei gyfer. Hefyd, mae modd dod o hyd i wybodaeth ar dudalen gartref gwefan CBSRhCT (Canllawiau a Chymorth i fusnesau) www.rctcbc.gov.uk.

## Crynodeb o'r Canllawiau Arfer Gorau

Mae'r isod yn awgrymiadau ac efallai y bydd angen buddsoddiad ariannol ac amser staff i'w cynnal. Dydy'r rhestr isod ddim yn gynhwysfawr. Yn gyffredinol, byddai modd dechrau gweithredu'r canllawiau canlynol ar draws y Sector:

- Byddwch yn effro i'r llwybrau trosglwyddo a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol a chyfrifwch pa gamau sydd orau ar gyfer eich busnes; Byddwch chi wedi nodi senarios posibl trwy gynnal siwrneiau potensial staff ac ymwelwyr yn eich asesiadau risg;
- Gosod peiriannau hylif glanhau dwylo wrth fynedfeydd a darparu pecynnau croeso sy'n cynnwys hylif glanhau dwylo;
- Cynnig hyblygrwydd gohirio yn hytrach na chanslo archebion;

- Caniatáu cwsmeriaid i archebu arosiadau heb adneuon a chaniatáu iddyn nhw ganslo yn ddi-dâl. Bydd hyn yn adeiladu eich perthynas cleient ar gyfer y dyfodol;
- Darparu system mewngofnodi ac allgofnodi digyswllt, e.e. coffrau allweddi, taliadau ar-lein o flaen llaw (gyda chymhelliant efallai) a thaliadau digyswllt ar y safle. Darwahanwch amserau cyrraedd a gadael;
- Cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau, tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac arddangos gwybodaeth yn glir ar y wefan mewn perthynas â glendid a mesurau cadw pellter cymdeithasol gan sicrhau bod ymwelwyr yn gwybod beth yw hyn a pha weithdrefnau i'w dilyn os ydyn nhw'n mynd yn sâl tra yn yr adeilad;
- Ymgorffori gwybodaeth weithdrefnol am COVID-19 yn eich cytundeb archebu gydag ymwelwyr fel eu bod nhw'n gwybod am yr holl rwymedigaethau cydfuddiannol e.e. trin allweddi, gwaredu sbwriel a chadw pellter cymdeithasol mewn mannau cyhoeddus;
- Llunio rhestr wirio o'r holl bwyntiau cyffwrdd y dylid eu diheintio yn rheolaidd;
- Rhoi hyfforddiant i staff ar 'y normal newydd' a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud os oes gyda nhw symptomau; Rhoi gwisg amddiffynnol i staff a'u cynghori ar faterion fel golchi dwylo ac arferion golchi dillad diogel ar gyfer dillad gwaith;
- Gosod marciau llawr, sgriniau neu ddangosyddion ffisegol eraill, y mae modd eu defnyddio i atgoffa rhywun o'r gofynion cadw pellter cyfredol;
- Ystyriwch gynnig yr opsiwn o brydau yn yr ystafell i westeion yn hytrach nag ymweld â'r bwyty;
- Ystyriwch a fydd angen rhagor o amser arnoch chi rhwng gwesteion er mwyn rhoi digon o amser i lanhau a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru os bu amheuaeth o haint yn eich adeilad;
- Nodwch gapasiti realistig ar gyfer eich atyniad yn seiliedig ar hyd ciwiau, mannau aros, caffis a chapasiti'r siop anrhegion, wedi'u haddasu i ganiatáu ar gyfer 2 fetr o bellter corfforol rhwng unigolion. Cadwch olwg ar lif gwesteion ac ystyried a oes angen i chi gau neu weithredu system goleuadau traffig ar rai adegau o'r dydd. Ystyriwch gynnig taith glywedol y mae modd ei lawrlwytho ar gyfer teithiau a gweithredu systemau un ffordd o amgylch arddangosfeydd.

<u>Cyfeiriadau</u>


Five Steps to Consider as you create your COVID-19 recovery plan - www.forbes.com
COVID-19 Business Continuity Plan – Five ways to reshape www.ey.com
Develop a 6 step COVID-19 Business Continuity Plan – International Labour Organisation
COVID-19 Re-opening Guidance – Considerations for the Global Attractions Industry, IAAPA The Global Association for the Attractions Industry, May 2020